



**AT DDEFNYDD Y SWYDDFA YN  
UNIG:**  
Rhif y Drwydded .....

**Cais am Drwydded Barcio ym  
Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan**

Rhif Myfyriwr: \_\_\_\_\_

Teitl: (Mr/Ms/Miss/Mrs etc.,) \_\_\_\_\_

Enw Cyntaf: \_\_\_\_\_

Cyfenw: \_\_\_\_\_

Rhif y Tŷ / Fflat: \_\_\_\_\_ Rhif Ystafell: \_\_\_\_\_

Rhif cofrestru'r cerbyd:	Gwneuthuriad / Model y Cerbyd:	Lliw'r Cerbyd:

Rwy'n gwneud cais am drwydded i barcio ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan ac yn cytuno i ufuddhau i Reoliadau'r Brifysgol ac Amodau'r Drwydded a nodir isod.

**Sylwer:**

- Bydd cyfyngiadau parcio yn weithredol tan ar ôl 25 Medi 2017.
- Mae nifer cyfyngedig o drwyddedau parcio ar gael, ac nid yw trwydded barcio'n gwarantu lle i barcio.
- Eich cyfrifoldeb eich hun yw unrhyw risgiau wrth barcio. Mae'r lleoedd a ddarperir er cyfleustra, ac ni fydd Prifysgol Abertawe'n atebol am unrhyw golled neu ddifrod i gerbydau wedi parcio.
- Dylid dychwelyd ffurflen wedi'i chwblhau i Dderbynfa Hendrefoelan (HSV40) drwy e-bost: [hsv-reception@abertawe.ac.uk](mailto:hsv-reception@abertawe.ac.uk).

Llofnodwch: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

## Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan Trwyddedau Parcio – Amodau Defnyddio

1. Bydd trwyddedau parcio yn ddilys ar unwaith ar ôl eu darparu. Mae'r drwydded barcio yn rhedeg ar y cyd â'r contract preswyl. Un drwydded barcio a roddir i unrhyw breswlydd.
2. Darperir pob trwydded ar yr amod bod yr ymgeisydd yn cytuno i gydymffurfio â rheoliadau'r Brifysgol ar barcio cerbydau, a gall y Dirprwy Is-ganghellor (Gweinyddiaeth) ei diddymu mewn rhai amgylchiadau.
3. Rhaid dangos y drwydded mewn lle amlwg ar y ffenestr flaen AR BOB ADEG.
4. **Nid yw bod yn berchen ar drwydded yn sicrhau y cewch le parcio.**
5. Rhaid i'r rhai sy'n parcio ym Mhentref y Myfyrwyr gydymffurfio a chyfarwyddiadau Rheolwr y Breswylfa a'i staff, sydd o dan gyfarwyddyd llym iawn i wahardd unrhyw gerbyd heb drwydded barcio, hyd yn oed os gwyddys bod y gyrrwr yn ddefnyddiwr awdurdodedig.
6. Bydd ystyr arwyddion a marciau ffordd yr un fath â'u hystyr yn unol â'r Deddfau Traffig Ffordd, a rhaid cydymffurfio â hwy.
7. Os bydd unrhyw gerbyd yn cael ei barcio ar dir y Brifysgol heb awdurdod, neu mewn lle nas awdurdodwyd, rhoddir rhybudd ar y cerbyd, caiff y cerbyd ei glampio neu caiff y cerbyd ei symud gan staff awdurdodedig y Brifysgol tan fod y ddirwy'n cael ei thalu.
8. Ardaloedd lle na awdurdodir parcio:
  - a. Ar linellau melyn dwbl;
  - b. Ardaloedd wedi'u marcio â llinellau croes;
  - c. Ardaloedd dim parcio;
  - d. Ardaloedd parcio i'r anabl (os na ddangosir bathodyn dilys);
  - e. Pafinau;
  - f. Unrhyw fan arall sy'n debygol o achosi perygl neu drafferth i bobl eraill.
9. Bydd rhaid i berchnogion cerbydau sy'n cael eu clampio dalu ffi cyn y rhyddheir y cerbyd. Y Dirprwy Is-ganghellor (Gweinyddiaeth) sydd â'r hawl i bennu'r ffi, a gellir codi ffi uwch yn achos trosedd mynych. Ar hyn o bryd, y ffi am drosedd gyntaf yw £25.00. Os gadewir cerbyd wedi'i glampio am dros 24 awr, codir ffi ychwanegol o £10 am bob diwrnod neu ran o ddiwrnod tan y telir y ffi. Gellir cyfeirio troseddwr mynych at sylw'r Dirprwy Is-ganghellor (Gweinyddiaeth).
10. Nid yw Prifysgol Abertawe, ei gweithwyr na'i chynrychiolwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled neu ddifrod i gerbydau a/neu eu cynnwys, nac am anaf, colled neu niwed personol i'r gyrrwr a/neu'r teithwyr mewn neu o gwmpas unrhyw gerbydau ar droed y Brifysgol, os na phrofir mai esgeulustod, gweithred fwriadol neu ddiffyg gweithredu gan y Brifysgol, ei gweithwyr neu ei chynrychiolwyr oedd yr achos.
11. Os cyfnewidir y cerbyd am gerbyd gwahanol, rhaid dychwelyd yr hen drwydded i Dderbynfa Hendrefoelan, a darperir trwydded newydd yn ei lle.

**SYLWER: Mae nifer cyfyngedig o Drwyddedau Parcio ar gael, a dim ond ymgeiswyr sy'n derbyn yr amodau hyn fydd yn cael Trwydded, ac rydym yn cadw'r hawl i ganslo neu wrthod Trwydded ar unrhyw adeg.**